

Archwilio Pam

Symbolau Ffydd



**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Archwilio Pam

Symbolau Ffydd

**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan
Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y
Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei
atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn
unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig,
mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands
Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

YNGHYLCH Y GYFRES ARCHWILIO PAM

Am beth mae'r gyfres?

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwmpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd. Gyda'i gilydd maen nhw'n archwilio bara, goleuni, fêl, croes, menora a dŵr, ac yna maen nhw'n cymryd rhan mewn Gŵyl Ffydd lle maen nhw'n cofio am bob un o'r symbolau ffydd hyn ac yn eu dathlu.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

Ar gyfer pwy mae'r gyfres?

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau yn y gyfres wedi'u hanelu at blant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer dysgwyr iau a hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae saith o lyfrau stori yn y gyfres *Archwilio Pam*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr

amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol. Y saith llyfr stori a'r traddodiadau crefyddol yw:

- Croes (Cristnogol)
- Bara (Cristnogol)
- Fêl (Mwslimaidd)
- Dŵr (Mwslimaidd)
- Menora (Iddewig)
- Goleuni (Iddewig)
- Symbolau Ffydd (yn dod â'r tri thraddodiad crefyddol ynghyd mewn dathliad o gredoau)

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrdau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 140 o syniadau am weithgareddau a 10 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

Mynediad at adnoddau'r gyfres Archwilio Pam

Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Yr Athro Leslie J Francis

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Libby Jones

Canolfan San Silyn, Wrecsam

Phillip Vernon

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae'r synagog a'r rabi yn cynrychioli Iddewiaeth
- Mae'r mosg a'r imam yn cynrychioli Islam
- Mae'r eglwys a'r ficer yn cynrychioli Cristnogaeth

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am y lluniau o'r eglwys, y mosg, a'r synagog
- Ysgrifennwch am ymweld ag eglwys, mosg, neu synagog

Datblygiad iaith Gymraeg

- eglwys
- synagog
- mosg

Datblygiad corfforol

- Meimiwch Aled a Siân yn mynd o gwmpas i edrych ar yr arddangosfeydd
- Safwch yn hollol lonydd yn edrych ar lun

Datblygiad creadigol

- Defnyddiwch sgriniau arddangos i arddangos lluniau o synagogau, mosgiau ac eglwysi
- Dyluniwch luniau o rabïaid, imamiaid, a ficeriaid

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Gwelwch fel mae'r tair crefydd yma'n rhannu eu gwreiddiau yn Abraham
- Gwelwch fel mae'r tair crefydd yma'n gweithio gyda'i gilydd yn eich ardal leol

Datblygiad mathemategol

- Mesurwch uchder y sgriniau arddangos (**Gweithgaredd 1**)
- Cyfrifwch faint o luniau mae'r sgriniau arddangos yn gallu eu dal (**Gweithgaredd 1**)

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Gweithiwch allan beth sy'n ffitio


Mesurwch beth yw maint y sgrin arddangos.

Cyfrifwch faint o luniau mae'r sgrin arddangos yn gallu eu dal.





Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae bara'n chwarae rhan bwysig mewn addoliad Cristnogol
- Mae bara'n cael ei ddefnyddio yn y gwasanaeth cymun

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am beth sy'n digwydd yn y lluniau o du mewn yr eglwys
- Chwaraewch rôl y sgwrs rhwng Aled a Siân a Peter a Mary

Datblygiad iaith Gymraeg

- bara
- clorian

Datblygiad corfforol

- Cariwch y dŵr yn y jwg mesur heb ei golli
- Ewch i siopa i gael y cynhwysion

Datblygiad creadigol

- Gosodwch gegin yn barod ar gyfer pobi (**Gweithgaredd 2**)
- Gwnewch gwpan a phlât arbennig ar gyfer eu defnyddio mewn eglwys

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch am hylendid yn y gegin
- Dysgwch am bobl sy'n mynd i'r eglwys

Datblygiad mathemategol

- Faint o flawd sydd ei angen er mwyn gwneud torth o fara?
(**Gweithgaredd 2**)
- Mesurwch y dŵr

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Ydych chi'n gallu dilyn y rysáit hon?


Cynhwysion: (ar gyfer 2 dorth fach – tuniau 1 lb)
680g (1 ½ lb) blawd bara gwyn plaen
1 llond llwy fwrdd wastad siwgr
2 llond llwy de wastad halen
3 llond llwy de wastad burum byw sych
14g (½ oz) menyn, braster neu olew (dewisol)
200 ml (14 fl oz) dŵr tymheredd llaw'

1. Rhowch y blawd mewn dysgl gymysgu fawr a'i roi i sefyll mewn lle cynnes.
2. Toddwch 1 llond llwy de o'r siwgr yn 1/3 o'r dŵr. Ychwanegwch y burum a'i chwisgo. Gadewch iddo sefyll mewn lle cynnes nes bydd yn ewynnog (bydd hyn yn cymryd tua 10 munud).
3. Rhwbiwch y menyn neu'r braster i'r blawd.
4. Toddwch weddill y siwgr a'r halen yng ngweddill y dŵr ac ychwanegwch hwn a'r burum at y blawd.
5. Cymysgwch i wneud toes llyfn. Tylinwch y toes ar fwrdd â blawd arno nes ei fod ddim mwyach yn ludiog (bydd hyn yn cymryd tua 5 munud).
6. Gorchuddiwch y toes a'i adael mewn lle cynnes am 20 munud.
7. Trowch y toes ar fwrdd â blawd arno, a'i dylino. Rhannwch y toes yn ei hanner. Ffurfiwch bob darn yn bêl, ac yna ei siapio a'i roi mewn tuniau wedi eu hiro (yn awr gosodwch y popty i boethi o flaen llaw).
8. Gorchuddiwch y tuniau a'u gadael mewn lle cynnes bydd y toes hanner modfedd yn uwch na thop y (bydd hyn yn cymryd tua 20 munud).
9. Crasu ar 450°F (230° C) neu farc nwy 5 munud.





Tudalen 8



Tudalen 9

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae bara'n bwysig i Gristnogion am fod Iesu wedi cymryd bara yn y Swper Olaf
- Mae bara'n bwysig i Gristnogion oherwydd y gwasanaeth cymun

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ysgrifennwch gerdd am dylino toes
- Siaradwch ynghylch pam fod bara'n bwysig i Gristnogion (**Gweithgaredd 3**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- burum
- toes

Datblygiad corfforol

- Tylinwch does yn y ffordd briodol
- Dawnsiwch ddawns y bara'n codi yn y popty

Datblygiad creadigol

- Gnewch does a'i ffurfio'n wahanol siapiau
- Lluniwch boster am bobi bara gartref

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch beth mae'r ficer yn ei wneud mewn gwasanaeth cymun
- Dysgwch sut mae Cristnogion yn bwydo pobl newynog heddiw ledled y byd

Datblygiad mathemategol

- Ewch at i ddarganfod faint o bobl wnaeth dderbyn cymun yn yr eglwys leol y dydd Sul blaenorol
- Faint o amser mae'n ei gymryd i bobi torth o fara?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Pam mae bara'n bwysig i Gristnogion?

Gan ddefnyddio'r geiriau yn y siâp torth o fara i'ch helpu chi, siaradwch ynghylch pam fod bara'n bwysig i Gristnogion.

eglwys

gwaed

bara

lesu

corff

allor

ficer

cwpan

disgyblion

Swper Olaf

Cristnogion




gwin


gwasanaeth cymun



Pam mae bara'n bwysig i Gristnogion?

Gan ddefnyddio'r lluniau i'ch helpu chi, siaradwch ynghylch pam fod bara'n bwysig i Gristnogion.





Tudalen 10



Tudalen 11

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae'r groes yn bwysig i Gristnogion am fod Iesu wedi marw ar y groes
- Mae Cristnogion yn cofio am farwolaeth Iesu, yn enwedig ar Ddydd Gwener y Groglith

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwiliwch am luniau o groesau Cristnogol a siaradwch amdany'n nhw
- Ysgrifennwch gerdd am y gweithdy gwneud croesau

Datblygiad iaith Gymraeg

- croes (**Gweithgaredd 4**)
- Iesu

Datblygiad corfforol

- Ewch am dro i ganfod faint o groesau y gallwch chi eu gweld
- Ewch ati i ymarfer defnyddio morthwyl a hoelen

Datblygiad creadigol

- Gwnewch groes fawr o gardfwrdd i'w chario mewn gorymdaith
- Gwnewch gerdyn ar gyfer Dydd Gwener y Groglith yn dangos croes Iesu

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ganfod pam mae rhai Cristnogion yn gwisgo croes ar gadwyn gwddf neu fel bathodyn llabed
- Siaradwch â rhywun sy'n mynd i'r eglwys

Datblygiad mathemategol

- Mesurwch y groes rydych chi wedi ei gwneud
- Cyfrifwch faint o ddyddiau sydd cyn y Dydd Gwener y Groglith nesaf

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Chwaraewch gêm Snap!

Llungopiwch y dudalen hon bedair gwaith. Torrwch allan y cardiau a chwaraewch gêm 'Snap'.

Croes

Cristion

Iesu

Beibl

Croes


Cristion

Iesu

Beibl



Tudalen 12



Tudalen 13

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae goleuni'n chwarae rhan bwysig mewn addoliad Iddewig
- Mae canhwyllau'n cael eu defnyddio ar gyfer y Saboth, y dydd o orffwys

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am y lluniau o'r synagog, y menora yn y ffenestr, ac arch y Torah lle mae'r sgroliau'n cael eu cadw
- Chwaraewch rôl y sgwrs rhwng Aled a Siân a Nathan a Rachel

Datblygiad iaith Gymraeg

- canhwyllau
- goleuni

Datblygiad corfforol

- Ewch am dro er mwyn gweld faint o wahanol fathau o oleuni y gallwch chi eu gweld
- Crëwch ddawns am oleuni

Datblygiad creadigol

- Gwnewch gollage yn dangos nifer o wahanol fathau o oleuadau
- Gwnewch arddangosfa o wahanol ganhwyllau

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch am y ffordd rydych chi'n teimlo wrth i chi wyllo kannwyll yn llosgi'n araf
- Dysgwch am bobl sy'n cadw'r Saboth Iddewig

Datblygiad mathemategol

- Edrychwch ar lun o awyr serenog y nos a chyfrifwch y sêr (**Gweithgaredd 5**)
- Mesurwch faint o amser mae'n ei gymryd i wahanol ganhwyllau losgi

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Cyfrif sêr

Faint o sêr ydych chi'n gallu eu cyfrif yn awyr y nos?





Tudalen 14



Tudalen 15

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae goleuni'n bwysig i Iddewon am ei fod yn dweud yn y Torah bod Duw wedi creu goleuni'n gyntaf oll
- Mae'r Saboth yn bwysig i Iddewon oherwydd y pedwerydd gorchymyn yn y Torah yw cadw'r Saboth, y seithfed dydd, yn sanctaidd

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch ynghylch pam mae'r Saboth yn bwysig i Iddewon
- Lluniwch restr o eiriau sy'n ymwneud â goleuni

Datblygiad iaith Gymraeg

- diwrnod o orffwys
- Saboth

Datblygiad corfforol

- Meimiwch wahanol fathau o oleuni (e.e. yr haul yn codi yn y dwyrain ac yn machlud yn y gorllewin)
- Gosodwch fwrdd ar gyfer pryd bwyd y Saboth (**Gweithgaredd 6**)

Datblygiad creadigol

- Addurnwch gannwyll ar gyfer y Saboth
- Gwnewch gollage yn dangos pryd bwyd y Saboth

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch beth sy'n digwydd ar adeg pryd bwyd y Saboth
- Siaradwch â rhywun sy'n cadw'r Saboth Iddewig

Datblygiad mathemategol

- Amserwch pa mor hir mae'n ei gymryd i gŵyr poeth oeri i wneud kannwyll
- Cyfrifwch pa bryd mae'r Saboth yn dechrau a pha bryd mae'n dod i ben

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Paratoi ar gyfer y Saboth

Ydych chi'n gallu gosod bwrdd ar gyfer pryd bwyd y Saboth?
Defnyddiwch y llun i'ch helpu.





Tudalen 16



Tudalen 17

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae'r menora'n bwysig i Iddewon am ei fod yn eu hatgoffa am y goleuni yn y Deml yn Jerwsalem
- Mae stori'r Hanukkah yn adrodd hanes y wyrth yn y Deml pan gadwodd Duw'r goleuadau ynghyn am 8 diwrnod nes cafodd y bobl fwy o olew

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwiliwch am luniau o'r menora Iddewig a siaradwch amdany'n nhw (**Gweithgaredd 7**)
- Ysgrifennwch stori am y gweithdy sy'n gwneud menoras

Datblygiad iaith Gymraeg

- menora
- gwyrth

Datblygiad corfforol

- Gwrandewch ar gerddoriaeth ar gyfer Hanukkah a datblygwch ddawns
- Goleuwch wyth kannwyll y menora o'r brif gannwyll, gan ofalu am iechyd a diogelwch

Datblygiad creadigol

- Canwch gân Hanukkah
- Gwnewch fenora i'w gosod yn y ffenestr

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol


- Dysgwch sut mae Iddewon yn dathlu gŵyl Hanukkah
- Ble mae'r synagog agosaf, a pham ei bod yno?

Datblygiad mathemategol

- Faint o ganhwyllau sydd eu hangen ar gyfer un menora, ar gyfer 2 fenora, ar gyfer 5 menora, ac ar gyfer 10 menora?
- Pa mor bell yw'r synagog agosaf?






Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Pa ddyluniad ydych chi'n ei hoffi orau?

Siaradwch am luniau'r menora. Pa rai ydych chi'n eu hoffi orau?





Tudalen 18



Tudalen 19

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae dŵr yn chwarae rhan bwysig mewn addoliad Islamaidd
- Mae dŵr yn cael ei ddefnyddio i ymolchi wrth baratoi ar gyfer gweddïo

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am beth sy'n digwydd yn y llun y tu mewn i'r mosg
- Chwaraewch rôl y sgwrs rhwng Aled a Siân ac Ahmed a Salma

Datblygiad iaith Gymraeg

- dŵr
- ymolchi

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer golchi dwylo yn y ffordd orau
- Lluniwch boster ynghylch ymolchi

Datblygiad creadigol

- Lluniwch arddangosfa ynghylch defnyddio dŵr mewn gwahanol ffyrdd, gan ddefnyddio'r teitl 'Rydyn ni'n diolch am ddŵr'
- Cyfansoddwch gerddoriaeth i ddathlu dŵr

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch am bwysigrwydd hylendid personol ac ymolchi
- Dysgwch am bobl sy'n mynd i'r mosg

Datblygiad mathemategol

- Sawl gwaith mewn diwrnod mae plant eich dosbarth yn golchi eu dwylo?
- Pa mor drwm yw peint o ddŵr? (**Gweithgaredd 8**)

**Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol**








Trymach neu ysgafnach?

Pwyswch beint o ddŵr.

A yw'n **drymach** neu'n **ysgafnach** na pheint o dywod neu beint o flawd?

	Pwysau
Dŵr 	
Blawd 	
Tywod 	



Tudalen 20



Tudalen 21

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae dŵr yn bwysig i Fwslimiaid oherwydd yn surah 5 yn y Qur'an mae Allah yn dweud wrth Fwslimiaid am olchi mewn ffordd arbennig cyn iddyn nhw weddïo
- Mae Mwslimiaid yn adrodd y Bismillah 'Yn enw Allah, Mwyaf Grisol, Mwyaf Trugarog'

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch ynghylch pam mae dŵr ac ymolchi'n bwysig i Fwslimiaid
- Crëwch lun geiriau gyda geiriau sy'n ymwneud â dŵr (**Gweithgaredd 9**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- dŵr poeth
- dŵr oer

Datblygiad corfforol

- Crëwch ddawns i ddiolch am ddŵr
- Ewch ati i ymarfer y drefn o ymolchi gan Fwslimiaid cyn gweddïo

Datblygiad creadigol

- Lluniwch boster am ddarparu dŵr glân ledled y byd
- Casglwch hysbysebion sebon a gwnewch gollage

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am sut mae Mwslimiaid yn gweddïo
- Siaradwch â rhywun sy'n mynd i'r mosg

Datblygiad mathemategol

- Sawl cwpanaid o ddŵr ydych chi ei angen i lenwi bowlen?
- Sawl gwaith y dydd mae Mwslimiaid yn gweddïo?


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Dŵr


Defnyddiwch y siâp templed i wneud llun geiriau am ddŵr.





Dŵr

Defnyddiwch y siâp templed i wneud llun geiriau am ddŵr.





Tudalen 22



Tudalen 23

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae fêl yn bwysig i Fwslimiaid oherwydd yn surah 24 yn y Qur'an mae'n dweud y dylai merched a dynion wisgo'n weddus
- Mae Mwslimiaid yn mabwysiadu gwahanol fathau o wisg ledled y byd

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ysgrifennwch stori am y gweithdy gwneud feliau
- Chwiliwch am luniau o Fwslimiaid yn gwisgo feliau a siaradwch am y lluniau

Datblygiad iaith Gymraeg

- fêl
- siswrn

Datblygiad corfforol

- Ewch am dro a nodwch sawl fêl welwch chi
- Ewch ati i ymarfer torri defnydd yn ofalus

Datblygiad creadigol

- Gwnewch fêl a cheisiwch ei gwisgo (**Gweithgaredd 10**)
- Lluniwch gollage o luniau pobl yn gwisgo feliau

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Holwch pam mae rhai Mwslimiaid yn gwisgo fêl
- Siaradwch â merch Fwslimaidd sy'n gwisgo fêl

Datblygiad mathemategol

- Ewch ati i ganfod ble mae'r mosg agosaf a chyfrifwch y pellter yno
- Faint o luniau pobl yn gwisgo fêl ydych chi'n gallu dod o hyd iddyn nhw?


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Dylunio fêl

Dyluniwch a lliwiwch ddefnydd ar gyfer fêl.





Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru

Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (5-7)


Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd;
- archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu ar fywyd pobl a rhoi arweiniad** iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach;
- gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio;
- ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth;
- mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol;
- archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.



Tudalennau 4-5

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. Archwilio sut mae'r rabi, yr imam a'r ficer yn gwisgo gwisgoedd nodedig. Datblygiad creadigol • Dyluniwch luniau o rabïaid, imamiaid a ficeriaid.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio nodweddion nodedig y synagog, y mosg a'r eglwys. Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu • Siaradwch am y lluniau o'r eglwys, y mosg a'r synagog.
---	--



Tudalennau 6-7

Agwedd ar yr ystod	Mynegi <i>ymatebion personol</i> i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut ydych chi'n teimlo ynghylch gweld y bara ar yr allor mewn eglwys.	
Maes dysgu	<i>laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> Siaradwch am beth sy'n digwydd yn y lluniau y tu mewn i'r eglwys.	

Agwedd ar yr ystod	Archwilio sut y mae crefydd wedi <i>dylanwadu</i> ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolerwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae Cristnogion yn cael eu dylanwadu gan y gwasanaeth cymun.	
Maes dysgu	<i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> Dysgwch am bobl sy'n mynd i'r eglwys.	



Tudalennau 8-9

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam mae bara mor bwysig i Gristnogion. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Mae bara'n bwysig i Gristnogion am fod Iesu wedi cymryd bara yn y swper olaf.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio ein cyfrifoldeb ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio pam mae Cristnogion yn bwydo pobl newynog heddiw ledled y byd. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Dysgwch sut mae Cristnogion yn bwydo pobl newynog ledled y byd.
---	---



Tudalennau 10-11

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam mae'r groes mor bwysig i Gristnogion. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Mae'r groes yn bwysig am fod Iesu wedi marw ar y groes.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio'r gwahanol ffyrdd mae Cristnogion yn gwisgo croesau. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Ewch ati i ddarganfod pam mae rhai Cristnogion yn gwisgo croes ar gadwyn am eu gwddf neu ar fathodyn llabed.
---	---



Tudalennau 12-13

Agwedd ar yr ystod	Mynegi <i>ymatebion personol</i> i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut rydych chi'n teimlo wrth wyllo kannwyll yn llosgi.	
Maes dysgu	<i>Datblygiad mathemategol</i> Mesurwch yr amser mae gwahanol ganhwyllau'n eu cymryd i losgi.	

Agwedd ar yr ystod	Archwilio sut y mae crefydd wedi <i>dylanwadu</i> ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae cadw'r Saboth yn dylanwadu ar Iddewon.	
Maes dysgu	<i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> Dysgwch am bobl sy'n cadw'r Saboth Iddewig.	



Tudalennau 14-15

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam mae'r Saboth mor bwysig i Iddewon. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Mae'r Saboth yn bwysig i Iddewon am mai'r pedwerydd gorchymyn yn y Torah yw cadw'r Saboth, y seithfed dydd, yn sanctaidd.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio beth mae Iddewon yn ei wneud adeg pryd bwyd y Saboth. Datblygiad creadigol Lluniwch gollage yn dangos pryd bwyd y Saboth.
---	--



Tudalennau 16-17

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam mae'r menora mor bwysig i Iddewon. Datblygiad corfforol Goleuwch ganhwyllau'r menora o'r brif gannwyll, gan fod yn ofalus o ran iechyd a diogelwch.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio stori'r Hanukkah. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Mae stori'r Hanukkah yn dweud hanes y wyrth yn y Deml pan gadwodd Duw'r golau ynghyn am 8 diwrnod nes cyrhaeddodd rhagor o olew.
---	--



Tudalennau 18-19

Agwedd ar yr ystod	 Mynegi <i>ymatebion personol</i> i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio arwyddocâd personol ymolchi defodol.
Maes dysgu	<i>Datblygiad corfforol</i> Ewch ati i ymarfer golchi eich dwylo yn y ffordd orau.

Agwedd ar yr ystod	 Archwilio sut y mae crefydd wedi <i>dylanwadu</i> ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae ymolchi defodol yn dylanwadu ar Fwslimiaid.
Maes dysgu	<i>Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> Siaradwch am beth sy'n digwydd yn y llun y tu mewn i'r mosg.



Tudalennau 20-21

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam mae dŵr mor bwysig i Fwslimiaid. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Mae dŵr yn bwysig i Fwslimiaid oherwydd yn surah 5 y Qur'an, mae Allah yn dweud wrth Fwslimiaid am ymolchi mewn ffordd arbennig cyn gweddïo.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio ein cyfrifoldeb ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio ein cyfrifoldeb personol i sicrhau bod pobl ledled y byd yn gallu cael dŵr glân. Datblygiad creadigol Lluniwch boster ynghylch darparu dŵr glân ledled y byd.
---	--



Tudalennau 22-23

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam mae'r fêl mor bwysig i Fwslimiaid. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Mae'r fêl yn bwysig i Fwslimiaid oherwydd bod surah 24 yn y Qur'an yn addysgu y dylai merched a dynion wisgo'n weddus.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio pam mae rhai Mwslimiaid yn gwisgo fêl. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Siaradwch gyda merch Fwslimaidd sy'n gwisgo fêl.
---	--